

STRAIGHT®

CANOLBWYNTIO

Straight plc, 31 Eastgate, Leeds, LS2 7LY Tel: +44 (0)113 245 2244 Fax: +44 (0)113 245 2255



Compostio Cartref yn dod yn fwy poblogaidd yng Nghymru
Am fwy, gweler y tu fewn...



Adfywiad i ailgylchu ochr ffordd
Am fwy, gweler y tu fewn...



Merthyr Tudful yn arloesi ym maes deunydd organig y gegin yng Nghymru
Am fwy, gweler y tu fewn...



Compostio Cartref yn dod yn fwy poblogaidd yng Nghymru

Mae compostio cartref yn uchel ar yr agenda ar gyfer awdurdodau Cymru fel opsiwn i drigolion ddargyfeirio gwastraff organig i ffwrdd o safleoedd tirlenwi. Mae bron i chwarter yr holl sbwriel sy'n cael ei roi yn y bin sbwriel cyfartalog yn organig ac mae modd ei gompostio gartref.

Straight yw'r cwmni dyfeisiau compostio cartref mwyaf blaenllaw yn marchnad y DU, ac mae'n ddiweddar wedi darparu 30,000 o finiau compostio cartref i Gyngor Sir Penfro. Bu Straight hefyd yn gyfrifol am reoli danfon un ddyfais compostio i bob aelwyd yn y sir.

Dan ymgyrch compostio sir-eang newydd y Cyngor mae pob aelwyd wedi derbyn Peiriant Compostio 335 litr yn rhad ac am ddim. Ymdrech yw hyn i annog trigolion i gompostio'u gwastraff gardd a gwastraff amrwd o'r gegyn mewn modd eco-gyfeillgar ac economaidd gynaliadwy, gan leihau



swm y gwastraff gwyrd sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi ac, ar yr un pryd, darparu cyflenwad rhad ac am ddim o gompost i ddeiliad y tŷ ei ddefnyddio yn yr ardd.

Plastig wedi'i ailgylchu yw 100% o gyfansoddiad y biniau compostio cartref, gyda chaead gwrthwynt sy'n cloi wrth ei droi, ac agoriad mawr ar yr ochr sy'n golygu ei bod yn rhwydd i ynnu'r cymysgedd allan pan mae wedi gorffen compostio.

Yn ogystal â'r bin compost, bydd deiliad tai yn derbyn canllaw yn cynnwys gwybodaeth am gompostio a bydd mwy o gefnogaeth ar gael trwy linell wybodaeth ffôn a chynghorwyr compost lleol. Mae Straight hefyd yn cynnig ategolion am bris gostyngol, gan gynnwys sylfeini ar gyfer y biniau compost a hylif organig i gyflymu'r broses.

Yn ôl swyddog compost cartref Paul Watkins, "Mae Sir Benfro yn ardal eithaf gwledig felly mae'n dasg anodd danfon yr holl ddyfeisiau compostio i bob cartref; fodd bynnag, mae Straight wedi llwyddo i ddanfoni y biniau i'r aelwydydd yn ddiffwdan. Yn ôl Llywodraeth y Cynulliad, compostio gwastraff gwyrd a gwastraff llysiâu gartref yw'r un ffordd fwyaf effeithiol o atal gwastraff y gall awdurdodau lleol ei hybu, felly trwy annog pobl i gompostio gartref rydym ni'n hyderus y byddwn ni'n cyfrannu'n sylweddol at gyrraedd targedau Sir Benfro ar gyfer dargyfeirio i ffwrdd o safleoedd tirlenwi".

Mae Cyngor Sir Powys wedi bod yn hybu manteision compostio cartref ers 1999 ac mae wedi gwerthu oddeutu 8,000 o unedau hyd yma. Straight sydd wedi cyflenwi'r rhan helaeth o'r rhain. Mae dyfeisiau compostio cartref ar gael i drigolion eu casglu o amwynderau dinesig ledled y Sir ar hyn o bryd, am briesiau â chymhorthdal o



gyn lleied â £10, ynghyd â chadi cegin yn rhad ac am ddim.

Cafwyd cynnydd helaeth yn nifer y rhai sydd wedi'u gwerthu ers i'r cyngor gyflwyno ffi am gasglu gwastraff gerddi o dai yn gynharach eleni. Meddai Lee Marshall, Rheolwr Gwasanaethau Stryd, "Roeddem ni am gynnig opsiwn arall i drigolion i ddefnyddio'u gwastraff gardd, ac mae compostio cartref yn ffordd dda o wneud hyn. Rydym ni o'r farn y bydd hyn, yn y pen draw, yn cyfrannu at y targedau Gwastraff Trefol Pydradwy mae'r llywodraeth wedi'u gosod."

Asiantaeth menter yn y gymuned yw Menter Môn, ac mae'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn. Mae arian a dderbyniwyd o'r Cynllun Ailgylchu Strategol (CAS) yn gynharach eleni wedi'u galluogi i sicrhau bod 3,000 o finiau compost ar gael i drigolion Ynys Môn yn rhad ac am ddim, a bachodd trigolion awyddus y rhain oll cyn pen 6 wythnos.

Merthyr Tudful yn arloesi ym maes deunydd organig y gegyn yng Nghymru

Mae un o ddarpariaethau allweddol y Gyfarwydddeb Tirlenwi yn galw am gwtogi ar wastraff trefol pydradwy (GTP) sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Er mwyn cyrraedd y targedau hyn mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful (CBSMT) wedi rhoi cynllun casglu biowastraff ar waith i aelwydydd yn eu bwrdeistref.

Erbyn 2010, 14,753 tunnell fydd uchafswm y gwastraff trefol pydradwy i caniateir i CBSMT ei dirlenwi. Mewn bwrdeistref â llai na 56,000 o drigolion, mae hyn yn cyfateb i oddeutu chwarter tunnell y pen y flwyddyn.

Er mwyn llwyddo i ddargyfeirio swm mawr o ddeunydd ailgylchadwy i ffwrdd o safleoedd tirlenwi, fe sylweddolodd y Cyngor y byddai angen pecyn integredig o opsiynau. Byddai angen defnyddio cyfuniad o gasglu deunyddiau ar wahân, eu trin, eu gompostio'n ganolog a'u hailgylchu, a byddai angen gallu ymdopi'n ddigonol â'r swm dan sylw a dod o hyd i farchnadoedd ar gyfer y deunyddiau a gesglir. Cydnabu hefyd y byddai angen cyflwyno cynllun cyfunedig casglu gwastraff gardd a gwastraff cegin er

mwyn sicrhau bod cymaint o GTP â phosibl yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o safleoedd tirlenwi.

Yn ystod 2003/4, daeth arian ar gael o'r Cynllun Ailgylchu Strategol; un o'r prif feini prawf yn y cais oedd bod yn rhaid cynnwys opsiwn ar gyfer casglu gwastraff cegin. Ar yr un pryd, roedd CBSMT wrthi'n treialu cynllun casglu gwastraff gardd ac felly cyflwynodd gynnydd ar gyfer datblygu'r cynllun hwn, gan gynnwys darpariaeth ar gyfer casglu gwastraff cegin o 10,000 eiddo.

Yn dilyn y dyfarniad ariannu, llwyddodd Straight i ennill tendr i gyflenwi 10,000 o'i Gadi Cegin pum litr a 10,000 cynhwysydd Minimax 25 litr. Bydd y deiliad tŷ yn defnyddio'r Cadi Cegin i storio gwastraff cegin cyn ei drosglwyddo i'r cynhwysydd Minimax 25 litr sy'n cael ei gadw yn yr awyr agored i'w gasglu. Mae gan Straight wybodaeth sylweddol yn y maes hwn, gan eu bod wedi cyflenwi'r system hon i nifer o awdurdodau eraill yn Lloegr.

Mae CBSMT yn un o'r awdurdodau cyntaf yng Nghymru i arloesi ym maes casglu gwastraff cegin ac felly ni allai ddsygu unrhyw beth oddi wrth



awdurdodau eraill yng Nghymru. Fodd bynnag, gwnaeth ddsygu o'r tu allan i Gymru ac aeth hefyd i gynhadledd LARAC yng Nghymru yn 2005 a oedd yn canolbwyntio ar gasglu gwastraff cegin.

Hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi wynebu problemau hlogiad ac mae, yn wir, wedi'i ganmol am ansawdd y deunyddiau sy'n cael eu cyflenwi. Meddai Val Steel, Swyddog Gwasanaethau Gwastraff Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, "Mae gennym ni staff casglu sydd wedi ymrwmo i'r prosiect ac maen nhw'n cael eu hannog i siarad â thrigolion os ydym nhw'n cael problemau tra'n casglu. Yn ail, mae'r ymgyrch marchnata ar drothwy'r drws wedi cyflawni canlyniadau positif."

Er mai megis cychwyn mae'r cynllun ym Merthyr Tudful ar hyn o bryd, mae'r cyngor wedi nodi y bu cwtogi sylweddol ar swm y GTP sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn ystod y pedwar mis cyntaf, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae Val Steel yn mynd ymlaen i ddweud, "Mae bron i 50% o'r trigolion yn cymryd rhan mewn rhai rowndiau dyddiol, ac mae hyn yn galonogol. Byddwn ni'n gallu cymharu'r sefyllfa yn fanylach yn ystod misoedd yr hydref a'r gaeaf pan fydd yna dipyn yn llai o wastraff gerddi."



Adfywiad i ailgylchu ochr ffordd

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn adfywio'u cynlluniau ailgylchu blychau ochr ffordd presennol â'r nod o gwrtogi mwy fyth ar swm y deunydd ailgylchadwy sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, a chynyddu'r cyfraddau ailgylchu.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n cynhyrchu 80,000 tonnell o wastraff bob blwyddyn, ac mae modd ailgylchu 60% o hwnnw. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 1 tonnell fesul aelwyd. Er mwyn cwtogi ar swm y gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi, ac annog aelwydydd i ailgylchu, mae'r Cyngor wedi bod yn rhedeg cynllun casglu ochr ffordd ers y 9 mlynedd diwethaf, a hynny'n llwyddiannus iawn.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n defnyddio blwch ochr ffordd 55 litr y mae Straight yn ei gyflenwi, i gasglu papur, cardbord, poteli plastig, caniau a thecstilau o dros 70,000 o aelwydydd ledled y Sir. Maent yn casglu pob pythefnos, ac mae hyn, ar hyn o bryd, yn cynnwys gwydr; fodd bynnag, bydd y deunydd yma'n cael ei gasglu ar wahân cyn bo hir, mewn blwch ochr ffordd porffor 44 litr. Yna, y bwriad yw casglu pob wythnos o lawer o eiddo sydd yn y cynllun. Daw'r ail flwch ochr ffordd yma o'r un teulu â'r blwch 55 litr, a Straight sy'n cyflenwi hwn hefyd. Mae blychau ochr ffordd llai yn ddelfrydol ar gyfer casglu deunyddiau trymach fel gwydr neu bapur, gan y gall y trigolyn o'r casglwr ei chael yn anodd trin a thrafod y deunyddiau hyn.



Yn ôl Malcolm Smith, Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, "Rydym ni wedi bod yn gweithio gyda Straight ers sawl blwyddyn ac rydym bob amser wedi derbyn gwasanaeth o safon uchel. Mae'r Cyngor bellach yn defnyddio cerbyd cywasgu dwbl sy'n caniatáu gwahanu deunyddiau, ac felly rydym ni wedi penderfynu gwahanu'r gwydr oddi wrth weddill y pethau ailgylchadwy gan ddefnyddio cynhwysydd ar wahân."

Aeth Mr Smith ymlaen i ddweud, "Rydym ni wrth ein bodd bod trigolion wedi ymrwymo i'r cynllun ailgylchu sydd ar waith gennym ni, ac rydym ni'n gobeithio gweld eu brwdfrydedd yn parhau wrth i'r gwydr gael ei gasglu mewn blwch ar wahân".

Mae cynllun ochr ffordd Cyngor Bwrdeistref Sir Blaenau Gwent wedi bod ar waith ers 1997, gan gwmpasu 90% o'r Fwrdeistref a chasglu gwahanol ddeunyddiau. Er mwyn cael mwy o bobl i gymryd rhan, a chynyddu swm y deunyddiau sy'n cael eu casglu i'w hailgylchu, mae menter Ailgylchu Cymunedol Blaenau Gwent, yn masnachu dan yr enw "Tidy Trev" mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, wrthi ar hyn o bryd yn rhoi cynllun newydd ar waith fesul cam i bob cartref yn y Fwrdeistref, gyda blwch ochr ffordd glas 55 litr Straight i chaead arno. Diben hwn yw casglu pethau ailgylchadwy cymysg, gan gynnwys gwydr, papurau newydd, caniau, poteli plastig, tecstilau ac esgidiau.

Cwmni dielw cymunedol yw Tidy Trev ac mae wedi derbyn arian o'r Cynllun



Ailgylchu Strategol, a ariennir gan ESF/ERDF trwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Meddai Frances O'Brien, Rheolwr Prosiect y cynllun, "Roedd yna sawl ffactor a gyfrannodd at ein penderfyniad i ddefnyddio blwch 55 litr Straight â chaead arno. Fodd bynnag, y ffactor wnaeth ddylanwadu fwyaf arnom ni oedd eu bod nhw wedi'u gwneud 100% o blastig eildro, gan fod hyn yn gweddu i'n polisi amgylcheddol ni. Roedd y caead gwrthwynt sy'n cau yn dynn yn ei le hefyd yn nodweddiadol ychwanegol wych. Mae'r blychau nawr yn cael eu dosbarthu ac maen nhw'n edrych yn ffantastig".

Mae Blaenau Gwent ar hyn o bryd yn casglu tua 2,000 tonnell o ddeunyddiau ailgylchadwy o ochr y ffordd, ac ar ôl rhoi'r cynllun hwn ar waith y gobaith yw y bydd y ffigur hwn yn dyblu erbyn mis Rhagfyr 2007. Mae marchnata'n chwarae rhan allweddol yn hyn o beth ac mae'r cyfryngau wedi ymateb yn bositif. Yn ogystal â hyn, bydd pob aelwyd yn derbyn taflen gyda'u blwch yn amlinellu'r hyn y gallant ei roi yn y blwch ailgylchu. Mae Tidy Trev hefyd yn gobeithio sicrhau arian ar gyfer swyddog addysg yn y dyfodol agos.